**Eitem 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 18 Tachwedd 2015 |
| **TEITL** | Polisi Arfaethedig Dyraniad Gwarchodaeth Ychwanegol |
| **PWRPAS** | Gofynnir am argymhelliad gan y Fforwm Cyllid Ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn y polisi arfaethedig |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. Cefndir

1.1 Gyda lefel balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae galw blynyddol o sawl cyfeiriad , gan gynnwys Penaethiaid, Cynghorwyr a Rhieni, i adolygu'r sail cyllido, yn arbennig ar gyfer balansau uchel mewn rhai Ysgolion sy'n derbyn dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio.

1.2 Yn anffodus, mae deddfwriaeth yn rhoi grym pendant i'r Cyngor daclo'r elfen balansau sydd **dros £50,000 yn unig** mewn Ysgolion Cynradd h.y. nid oes gan y Cyngor grym pendant gyda'r elfen balansau hyd at £50,000.

1.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda holl Ysgolion Gwynedd (**atodiad 6.1**) ar bolisi arfaethedig dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio ychwanegol i leihau'r dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio gyda swm cyfatebol i'r elfen balansau dros 5% ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafod ei gyhoeddi.

1.4 Os bydd y polisi arfaethedig yn cael ei dderbyn mi fydd hynny'n golygu lleihad yn y dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio ar gyfer 2016/17 gan bwysleisio mai arbediad unwaith ac am byth yw hyn.

## 2. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

2.1 Derbyniwyd ymateb gan 45 Ysgol allan o 109.
- O Blaid 36 (80%)
- Yn Erbyn 9 (20%)

2.2 Amgeir crynodeb o sylwadau'r Ysgolion (**atodiad 6.2**)

## 3. Casgliad

3.1 Mae mwyafrif clir o'r Ysgolion wnaeth ymateb yn cefnogi gweithredu'r polisi arfaethedig.

3.2 Gall gweithredu'r polisi arfaethedig daro trefniadau presennol a chynlluniau rhai Ysgolion, gan gynnwys oblygiadau ariannol. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen cynnal trafodaeth gyda'r Adran Addysg.

3.3 Os bydd y polisi arfaethedig yn cael ei dderbyn, gan fod rhan o'r cynlluniau arbedion £4.3m yn disgyn tu allan i'r cyfnod 3 mlynedd 2015/16 i 2017/18, defnyddir yr arbedion unwaith ac am byth i gyfrannu at ariannu'r cyfnod pontio angenrheidiol.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Fforwm Cyllid Ysgolion gymeradwyo'r argymhelliad.